

ENYA 2021

"Dewch i ni Siarad yn Ifanc, Dewch i ni Siarad am effaith COVID-19 ar hawliau plant"

Argymhellion ynghylch iechyd:



Erthygl 24

1. Yn ystod adegau pan fydd plant a phobl ifanc yn methu mynd i apwyntiadau wyneb yn wyneb oherwydd COVID-19, sicrhau bod sesiynau ymgynghori ar-lein yn cael eu darparu. Wrth i'r sefyllfa wella, ac yn y dyfodol, parhau i ganiatáu i blant a phobl ifanc fedru dewis cael ymgynghoriad gofal iechyd ar-lein neu wyneb yn wyneb.



Erthygl 24

2. Dylai fod mwy o adnoddau i gyfrannu at leihau'r amserau aros ar gyfer pob diagnosis, gan gynnwys ADY, Iechyd Meddwl ac aros am lawdriniaethau ers cyn COVID. Cymryd i ystyriaeth newidiadau COVID posibl a allai effeithio ar amserau aros a pharhau â chyfathrebu effeithlon rhwng plant a phobl ifanc a gwasanaethau iechyd.



Erthygl 24

3. Parhau i ddarparu cefnogaeth ar gyfer iechyd meddwl – i'r rhai mae newidiadau COVID wedi effeithio arnyn nhw, yn ogystal â'r rhai sy'n delio â phroblemau 'normal' yr ardegau, fel bwlio. Parhau â hyn hyd yn oed pan fydd pethau'n dychwelyd i 'normal'. Gallai'r gefnogaeth yma gynnwys gweithgareddau sy'n helpu'r meddwl a'r corff e.e. yoga yn ogystal â chyfleoedd i ddysgu yn yr awyr agored.

Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 www.widgit.com



**Comisiynydd
Plant Cymru**

Children's
Commissioner
for Wales

Argymhellion ynghylch addysg:




Erthygl 17

1. Rhoi gwybodaeth sicr a theg i blant ynghylch addysg mewn amgylcheddau dysgu. Rhoi gwybodaeth glir i bobl ifanc a lleoliadau addysg mewn da bryd a sicrhau tegwch trwy fonitro newidiadau a sicrhau eu bod yn gyson ar draws y wlad.




Erthygl 29

2. Safoni dysgu o bell a sicrhau ei fod yn briodol ar gyfer pob arddull dysgu a chefnidir.




Erthygl 28

3. Mae gan bob plentyn a pherson ifanc hawl i gael addysg, felly yn ystod y cyfnodau o ddysgu o bell dylen nhw gael mynediad i adnoddau digidol.



Erthygl 29

4. Sicrhau bod pobl ifanc yn dal i fedru cynnal eu trefn addysg arferol, er gwaethaf newidiadau COVID ym mhob lleoliad dysgu, er enghraifft amserlen debyg, mynediad i'r holl gyfleusterau, safonau dysgu tebyg, cefnogaeth i feysydd mae COVID yn effeithio arnyd nhw fel y celfyddydau creadigol.



Erthygl 28

5. Rhoi systemau canolog yn eu lle ym myd addysg ac mewn grwpiau ieuencid i osgoi anghysondebau mawr: bydd yr holl ysgolion a gwersi'n defnyddio'r un platfform addysgu ar-lein, yn defnyddio mygydau yn yr un ffordd, yn neilltuo amser rhydd, ac yn darparu cefnogaeth debyg o ran iechyd corff a meddwl.

Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 www.widgit.com



Argymhellion ynghylch teuluoedd:



Erthygl 27

1. Mwy o gefnogaeth i deuluoedd a gofalwyr, gan gynnwys cefnogaeth ariannol i deuluoedd y mae tlodi materol yn effeithio arnyn nhw oherwydd COVID-19, a'r effeithiau economaidd. Parhau â'r ddarpariaeth i deuluoedd sydd mewn trafferthion, e.e. prydau ysgol am ddim.



Erthygl 19

2. Cefnogaeth i deuluoedd y mae trais domestig yn effeithio arnyn nhw, gan gynnwys cefnogaeth emosiynol yn ogystal â chefnogaeth gan yr heddlu, a rhywle i deuluoedd fynd os byddan nhw'n dioddef camdriniaeth. Dylai teuluoedd sy'n agored i niwed gael eu gwirio, yn ôl y galw, gan y gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd meddwl, er mwyn darparu cefnogaeth.




Erthygl 31

3. Agor mwy o leoedd i bobl ifanc ymlacio, er enghraifft clybiau ieuenctid a chlybiau ar ôl ysgol.



Erthygl 26

4. Dylai gofal plant a seibiant fel canolfannau galw heibio neu weithgareddau cymunedol fod ar gael i gefnogi teuluoedd sydd angen hynny, a theuluoedd lle mae'r rhieni'n gweithio i ffwrdd.



Erthygl 10

5. Darparu llinell amser a chydweithrediad rhyngwladol i sicrhau bod teuluoedd sy'n byw mewn gwledydd eraill yn cael gweld ei gilydd.

Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 www.widgit.com



Argymhellion ynghylch Newyddion Ffug:



Erthygl 17

1. Dylai newyddion sy'n cael ei gyfeirio at bobl ifanc fod yn bendant, yn ffeithiol ac yn gywir, heb ddim newyddion ffug ynghylch newidiadau COVID.

